

Cymorth cynnar, gofal a
chefnogaeth a threfniadau
trosglwyddo ar gyfer plant anabl

Cyngor Sir Ceredigion

Cyflwyniad

Diben yr arolygiad hwn yw ystyried pa mor dda y mae awdurdodau lleol, gan gynnwys gwasanaethau integredig, yn darparu cymorth, gofal a help cynnar ac yn sicrhau bod cyfnod pontio plant anabl a'u teuluoedd yn mynd rhagddo'n ddidrafferth. Mae'r arolygiad yn nodi ymarfer sy'n ysgogi canlyniadau da i blant yn ogystal â meysydd i'w gwella a rhwystrau i gynnydd.

Gwnaethom ganolbwyntio ar brofiad plant anabl a'u teuluoedd wrth iddynt ddod i gysylltiad â gwasanaethau cymdeithasol a chael cyngor a chael eu cyfeirio at wasanaeth cymunedol, cymryd rhan mewn asesiadau a chael gofal a chymorth. Gwnaethom hefyd ystyried plant anabl sydd wedi bod mewn gofal a'r ffordd y cafodd pobl ifanc gymorth i bontio i wasanaethau i oedolion.

Nod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 oedd dwyn gwasanaethau cymdeithasol ynghyd a'u moderneiddio. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru i gydweithio i hyrwyddo llesiant y rhai y mae arnynt angen gofal a chymorth, a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth. Mae egwyddorion y Ddeddf fel a ganlyn:

- Cefnogi'r bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt i sicrhau eu llesiant.
- Pobl sydd wrth wraidd y system a dylent gael cyfle cyfartal i ddweud pa gymorth y maent yn ei gael.
- Partneriaethau a chydweithredu sy'n ysgogi'r broses o ddarparu gwasanaethau.
- Dylai gwasanaethau hybu'r broses o atal anghenion rhag gwaethygu a dylent sicrhau bod yr help cywir ar gael ar yr adeg gywir.

Mae 'Cymru lachach' yn esbonio'r uchelgais o ddod â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd, er mwyn i'r gwasanaethau gael eu cynllunio a'u darparu yn unol ag anghenion a dewisiadau unigolion, gan roi mwy o bwyslais ar gadw pobl yn iach a hyrwyddo llesiant. Mae Cymru lachach yn disgrifio sut y dylid cydlynu dull system gyfan ddi-dor o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol.

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arwain yr arolygiad hwn, gyda chymorth gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

Cryfderau a blaenoriaethau ar gyfer gwella

Mae AGC yn tynnu sylw'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol at gryfderau a meysydd i'w gwella. Rydym yn disgwyl i gryfderau gael eu cydnabod a'u datlu a'u defnyddio fel cyfleoedd i adeiladu arnynt. Rydym yn disgwyl i flaenoriaethau ar gyfer gwella arwain at gamau gweithredu penodol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bobl yn ardal yr awdurdod lleol, yn unol â gofynion deddfwriaeth a chodau arfer da.

Llesiant	
Cryfderau	<p>Mae Ceredigion wedi pennu ei uchelgais ar gyfer plant anabl yn glir. Mae'r weledigaeth hon yn ymrwymedig i drefniadau corfforaethol, mae wedi cael ei chyfleu'n glir, a chaiff ei defnyddio i adolygu gweithdrefnau a strwythurau gweithdrefnol maes o law.</p> <p>Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i drawsnewid ei fodel gweithredu gofal cymdeithasol er mwyn bodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn llawn.</p> <p>Roedd y plant anabl a'u rheini yn gwerthfawrogi'r cydberthnasau cadarnhaol a chefnogol a ddatblygwyd gyda gweithwyr proffesiynol.</p> <p>Mae gan Porth Gofal, y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, lwybr clir sy'n darparu ymateb amserol ac effeithlon i ymholiadau.</p>
Blaenoriaethau ar gyfer gwella	<p>Mae angen sicrhau bod yr holl asesiadau a phrosesau cynllunio gofal yn gwbl gyson ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac yn canolbwyntio'n glir ar ganlyniadau personol i bawb. (Wedi'i arwain gan bobl yn hytrach na'r gwasanaeth).</p> <p>Mae angen i'r awdurdod lleol sicrhau bod gofawyr yn cael eu nodi a'u cefnogi mewn ffordd fwy effeithiol. Ni all gofawyr fod yn hyderus y caiff eu hanghenion eu hasesu'n gyson nac yn amserol.</p> <p>Er mwyn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer, mae angen i'r awdurdod lleol adolygu ei drefniadau presennol ar gyfer cynnal cofrestr, er mwyn cynnwys pob plentyn anabl cymwys. Bydd hyn hefyd yn llywio'r gwaith cynllunio yn y dyfodol.</p>
Pobl – llais a dewis	
Cryfderau	<p>Mae'r 'cynnig rhagweithiol' mewn perthynas â'r Gymraeg yn cael ei wneud yn rheolaidd, gan sicrhau y gweithredir ar anghenion ieithyddol plant a rhieni.</p>

	<p>Mae'r staff hefyd yn cael cefnogaeth dda gan gydweithwyr a rheolwyr i gyflawni eu swydd, ac mae ganddynt fynediad da i hyfforddiant.</p>
Blaenoriaethau ar gyfer gwella	<p>Sicrhau y caiff 'llais y plentyn' ei adlewyrchu'n llawn yn y ddogfennaeth asesu a chynllunio gofal. Mae angen atgyfnerthu'r agwedd hon. Mae angen rhoi trefniadau archwilio effeithiol ar waith, yn ogystal â sicrhau trefniadau goruchwyllo effeithiol gan y rheolwyr, er mwyn gwneud yn siŵr y caiff elfennau o arfer da eu hymgorffori a'u rhannu.</p> <p>Mae angen i'r awdurdod lleol ddatblygu fframwaith sicrhau ansawdd effeithiol gyda'r rheolwyr yn goruchwyllo ei swyddogaethau a'i brosesau craidd yn effeithiol.</p> <p>Gellir gwella'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu drwy gael mwy o adborth cynhwysfawr gan rieni, asiantaethau partner eraill a thrwy fapio bylchau ac anghenion presennol nad ydynt yn cael eu diwallu ar hyn o bryd mewn modd systematig.</p>
Partneriaethau ac integreiddio	
Cryfderau	<p>Ystyriodd yr ymarferwyr a'r partneriaid fod cydleoli gwahanol broffesiynau yn gam cadarnhaol iawn.</p> <p>Roedd gan lawer o bobl ifanc anabl fynediad at ystod dda o ddarpariaethau addysg bellach, cyflogaeth a gweithgareddau cymdeithasol er mwyn dilyn eu diddordebau a bod mor annibynnol â phosibl.</p>
Blaenoriaethau ar gyfer gwella	<p>Ar gyfer rhai plant ag anghenion cymhleth iawn, ni welwyd llawer o dystiolaeth o weithio ar y cyd na chyfeiriadau at weithwyr iechyd proffesiynol yn cymryd rhan sylweddol yn eu gofal, lle byddwn wedi disgwyl gweld y rhain ar waith.</p> <p>Dylai'r awdurdod lleol barhau i fodloni ei hun fod pob aelod o staff sy'n ymgymryd â thasgau dynodedig yn meddu ar y profiad a'r cymwysterau priodol i wneud hynny, yn unol â phwynt 43 o ddisgwyliadau Rhan 3 o'r Cod Ymarfer.</p> <p>Mae angen i'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd adolygu a datblygu trefniadau comisiynu presennol ar y cyd er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben o ran diwallu anghenion plant anabl ag anghenion cymhleth.</p> <p>Mae digonolrwydd adnoddau yn parhau yn her ac mae prinder ac oedi cydnabyddedig o ran darparu gofal a chymorth, yn enwedig mewn perthynas â seibiannau byr a chyfleusterau</p>

	seibiant eraill. Dywedodd rheolwyr yr awdurdod lleol wrthym eu bod yn bwriadu adolygu ei gynnig seibiannau byr.
Atal ac ymyrraeth gynnar	
Cryfderau	<p>Pan fydd rhieni yn cysylltu â'r awdurdod lleol am y tro cyntaf, cânt amrywiaeth gynhwysfawr o wybodaeth am wasanaethau a all fod o ddiddordeb iddynt neu a all eu cefnogi.</p> <p>Roedd y rhieni yn gadarnhaol ynghylch yr ymyriadau llwyddiannus a ddarparwyd gan y gweithwyr ymyrryd yn gynnar yn y Tîm Plant Anabl (TPA) i'w plant anabl.</p> <p>Mae Ceredigion yn canolbwyntio ar atgyfnerthu trefniadau atal ac ymyrraeth gynnar a gwnaeth y Prif Weithredwr gydnabod yr angen i adolygu'r modelau ymarfer presennol yn glir.</p>
Blaenoriaethau ar gyfer gwella	Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod nad yw'n gwneud y defnydd gorau o dechnoleg gynorthwyol i gefnogi'r rhieni sy'n ofalwyr nac yn hybu annibyniaeth i oedolion ifanc anabl ar hyn o bryd, a dylid ystyried ffyrdd o hybu hyn yn ehangach.

1. Llesiant

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau'r canlynol;

- **Mae plant anabl a theuluoedd yn cael y gofal a'r cymorth cywir ar yr adeg gywir**
- **Mae plant yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod a niwed**

Tystiolaeth ar lefel yr unigolyn:

- 1.1 Roedd y rhan fwyaf o rieni a ymatebodd i'n harolwg yn gadarnhaol ynghylch mewnbwn parhaus gweithwyr allweddol eu plentyn, ond roedd yr adborth yn fwy cymysg mewn perthynas â'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i'w plentyn/plant anabl. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn y sylw canlynol a wnaed gan un rhiant: *"Whilst our key worker does make an effort on our behalf, their hands are somewhat tied by lack of resources"*.
- 1.2 Dywedodd rhai o'r rhieni y gwnaethom siarad â nhw yn uniongyrchol am eu problemau sydd heb eu datrys, ac sy'n aml yn hirsefydlog, wrth geisio cael gafael ar wasanaethau sy'n darparu cymorth hirdymor i'w plant anabl. Diffyg mynediad neu fynediad cyfyngedig at ddarpariaeth gofal seibiant / seibiannau byr oedd un o'r methiannau a nodwyd amlaf gan y rhieni.
- 1.3 Gwelsom rai ceisiadau ar gyfer cymhorthion ac addasiadau ymhlith y ffeiliau achos unigol a welwyd, ond gwelwyd yr ymatebwyd i'r rhain yn gyflym ac roedd y plant anabl a'u teuluoedd yn gwerthfawrogi hynny.
- 1.4 Ni chawsom sicrwydd fod y plant anabl a'u rhieni yn cael cyfle cyson i esbonio'r hyn a oedd yn bwysig iddynt, er mwyn helpu i bennu eu canlyniadau personol. Gwelsom nad oedd cynlluniau gofal a chymorth yn canolbwyntio digon ar ganlyniadau ac yn aml roeddent yn llawn termau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth. Roedd enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys y canlynol: "Parhau i gael yr holl gymorth posibl i X"; "Bod yn iach a monitro anghenion meddygol / iechyd X"; a "Atgyfeiriad at y Tîm Plant Anabl" (TPA).
- 1.5 Cynhaliwyd adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth o fewn amserlenni disgwylidig a chynhaliwyd adolygiad cyn cau ffeil. Roedd rhai adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth yn adlewyrchu dull amlasiantaeth o weithio, gyda chynrychiolwyr addysg, iechyd a gyrfaoedd yn bresennol ynghyd â gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol. Gwelsom enghreifftiau da o anghenion a dewisiadau cyfathrebu unigol yn cael eu nodi, ynghyd ag ystyriaeth gynhwysfawr o anghenion wedi'i nodi ar ffurf 'wythnos arferol yn fy mywyd'. Fodd bynnag, ni welwyd hyn ym mhob achos, sy'n amlygu'r ffaith bod angen i'r awdurdod lleol wella cysondeb ac ansawdd cyffredinol asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth.
- 1.6 Gwelsom fod rhai asesiadau risg wedi'u cwblhau mewn cynlluniau ac adolygiadau gofal a chymorth, a gwelsom enghreifftiau o gamau rhagweithiol yn

cael eu cymryd er mwyn lliniaru niwed / niwed posibl. Cafodd y rhain eu rhannu ag asiantaethau eraill fel y bo'n briodol, er nad oedd llawer o dystiolaeth o gynllunio wrth gefn, nac ystyriaeth o'r hyn a fyddai'n digwydd petai amgylchiadau nad oedd modd eu rhagweld yn codi neu petai amgylchiadau'n newid.

- 1.7 Roedd y gwaith o gynllunio llwybrau er mwyn paratoi i bobl ifanc adael gofal wedi'i fapio mewn sawl achos ar gyfer pobl ifanc 14/15 oed. Ni chymerwyd camau cadarn rheolaidd i roi trefniadau ar waith nes i berson ifanc gyrraedd 17 oed. Dywedodd un person ifanc wrthym ei fod yn gwerthfawrogi'r cydberthnasau y mae wedi'u meithrin â'i gynghorydd personol, a'i fod yn gwerthfawrogi'r cyngor a'r cymorth y mae'n ei ddarparu mewn perthynas â chynllunio materion ariannol, hwyluso mynediad at gyfleoedd hyfforddiant addysgol a llety.
- 1.8 Roedd y trefniadau cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a dull gweithredu arwyddion diogelwch / llesiant sy'n cael ei hybu gan Geredigion, wedi'u hymgorffori yn nogfennaeth gynllunio llwybrau ac adolygiadau plant sydd wedi cael profiad o ofal. Dywedwyd wrthym am y cydweithredu cadarnhaol a chydberthnasau cefnogol, a gwelsom hynny, ac roedd yn amlwg eu bod yn cael effaith fuddiol ar fywydau'r bobl ifanc o ddydd i ddydd. Roedd cysylltiadau, ymweliadau ac adolygiadau rheolaidd yn cael eu dogfennu'n glir yn y ffeiliau achos.
- 1.9 Roedd y dogfennau a welsom a'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn cadarnhau nad oedd asesiadau gofalwyr yn cael eu cynnig na'u cwblhau'n rheolaidd, yn unol â disgwyliadau deddfwriaethol. Cafodd hyn ei adlewyrchu hefyd yn ymatebion yr holiadur i rieni, lle dywedodd dwy ran o dair o'r bobl wrthym nad oeddent wedi cael cynnig asesiad gofalwr. Dywedodd un gofalwr wrthym, pan ofynnodd am asesiad gofalwr yn wreiddiol, y dywedwyd wrthynt y byddai angen asesu anghenion ei blentyn yn gyntaf, a dim ond os ystyrir bod ei anghenion yn gymwys y gellid cynnal asesiad gofalwr. Mae hyn yn amlwg yn mynd yn groes i'r egwyddorion sy'n sail i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- 1.10 Clywsom gan uwch-reolwyr fod yr opsiynau 'Pan Fydda i'n Barod' a oedd ar gael ar hyn o bryd, a oedd wedi'u hanelu at ymestyn trefniadau gofal maeth ar gyfer plant anabl, yn gyfyngedig iawn.
- 1.11 Gwelsom achosion o oedi sylweddol wrth gadarnhau trefniadau trosglwyddo ar gyfer rhai plant anabl. Mewn un achos, roedd y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol eisiau cadarnhad gan y Tîm Anableddau Dysgu Oedolion nad oedd gan y person ifanc anabledd dysgu cyn y byddent yn cytuno i'w gefnogi ar ôl 18 oed. Roedd yr asesiad hwn yn cymryd nifer o fisoedd, ac yn ystod y cyfnod hwn collwyd cyfleoedd i gydweithio â'r TPA ar yr achos a gweithio tuag at feithrin cydberthynas waith gadarnhaol â'r person ifanc. Dim ond ychydig cyn penblwydd y person ifanc yn 18 oed y gwnaeth y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol gadarnhau y byddent yn cefnogi'r person ifanc ar ôl 18 oed.

Tystiolaeth ar lefel weithredol:

- 1.12 Gwelsom fod gan yr atgyfeiriadau at Borth Gofal – y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yng Nghyngor Sir Ceredigion – lwybr clir a oedd yn darparu

ymateb cyflym ac effeithlon. Cafodd hyn ei gefnogi gan y gwaith diweddar o gyflwyno Cofnod Atgyfeirio, Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth newydd a oedd wedi helpu i sicrhau yr ymatebir i ymholiadau yn briodol. Naill ai drwy gael eu cyfeirio at sefydliadau eraill neu gael eu trosglwyddo i wasanaethau eraill yn yr awdurdod, gan gynnwys y TPA, lle y bo'n briodol.

- 1.13 Mae Porth Gofal a'r tîm dyletswydd yn y TPA yn darparu taflenni dwyieithog ac ar ffurf hawdd eu darllen, print bras neu sain. Mae rhai o'r rhain ar gael yn hawdd, ond caiff eraill ond eu darparu ar gais. Mae manylion y TPA hefyd ar gael ar wefan DEWIS. Mae'r TPA yn dosbarthu taflen wybodaeth ddwyieithog i ddefnyddwyr, ac mae taflenni neu ganllawiau eraill mwy arbenigol ar gael gan y TPA a'r Tîm Anabledau Dysgu Cymunedol, gan gynnwys rhai fformatau hawdd eu darllen. Roedd llawer o wybodaeth ar-lein Cyngor Sir Ceredigion, sy'n ymwneud â gwasanaethau ar gyfer plant anabl, wrthi'n cael ei hadolygu ar adeg arolygiad AGC.
- 1.14 Dywedwyd wrthym fod staff Porth Gofal wedi cael hyfforddiant priodol i ddechrau pob sgwrs gyda sgwrs 'yr hyn sy'n bwysig'. Gwelsom enghraifft o gyswllt amserol â'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a oedd wedi casglu'r wybodaeth berthnasol ac wedi'i atgyfeirio at y TPA i gael asesiad cynhwysfawr. Cysylltwyd â'r rhieni a threfnwyd ymweliad yn dilyn hynny o fewn dau ddiwrnod i'r atgyfeiriad gwreiddiol.
- 1.15 Fodd bynnag, gwelsom achosion hefyd o faterion Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn cael eu trosglwyddo i'r TPA heb fod angen, neu lle y gellid bod wedi ymgymryd â dulliau gweithredu amgen fel ymateb mwy priodol. Nid oedd plant anabl eraill yr oedd ganddynt anghenion cymhleth mae'n debyg, yn aros gyda'r TPA. Mae'r anghysondebau hyn yn awgrymu bod angen i'r awdurdod lleol oruchwylio a monitro rhai agweddau allweddol ar ei swyddogaethau craidd a sicrhau bod prosesau yn fwy cadarn.
- 1.16 Dywedwyd wrthym am brofiad un o'r rhieni a oedd ond wedi clywed am y TPA a'r amrywiaeth o wasanaethau eraill a oedd ar gael ar ôl i'w blentyn anabl symud i ysgol uwchradd. Mae angen i'r awdurdod fod yn fwy rhagweithiol wrth ddarparu gwybodaeth fanwl mewn modd amserol i ystod o rieni a phobl eraill sydd â diddordeb mor eang â phosibl.
- 1.17 Prin iawn oedd yr achosion diogelu diweddar yn cynnwys plant anabl i AGC eu hystyried. Cawsom wybod gan y rheolwyr fod y Cofnod Atgyfeirio, Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth newydd wedi gwella eglurder o ran cofnodi canlyniadau Ffurflenni Atgyfeirio Amlasiantaeth / ymholiadau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ar gyfer achosion diweddar.
- 1.18 Mae gan Geredigion lwybr diogelu clir a thîm o reolwyr profiadol yn goruchwylio'r cysylltiadau cadarnhaol â phartneriaid amlasiantaethol.
- 1.19 Mewn un achos, nid oedd y nodiadau achos yn cofnodi'r camau, y penderfyniadau a wnaed na rhesymeg clir ar gyfer canlyniadau a bennir mewn perthynas â'r materion diogelu a godwyd, yn ddigonol. Mae'r diffygion a nodir yma yn ymwneud ag elfennau penodol o'r gwaith o gofnodi'r penderfyniadau a

wnaed a'r canlyniadau diogelu Ni wnaethom nodi achosion lle roedd plant neu bobl ifanc anabl eu hunain wedi wynebu niwed o ganlyniad i ddiffygion ar ran yr awdurdod lleol.

- 1.20 Nododd yr awdurdod ei fod wedi cyflwyno gweithdrefnau newydd i'w rhoi ar waith ar unwaith mewn ymateb i'r diffygion hyn, gyda'r nod o sicrhau y caiff pob cam gweithredu dadansoddi risg a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â Ffurflenni Atgyfeirio Amlasiantaeth, eu cofnodi'n glir. Dywedwyd wrthym fod canlyniadau o adolygiad mewnol diweddar o'r gwasanaethau plant yn hwyluso'r gwaith o gyflwyno dogfennaeth a gweithdrefnau mwy syml sy'n gysylltiedig â'r broses ddiogelu.
- 1.21 Roedd enghreifftiau diogelu eraill yn adlewyrchu ystyriaeth sensitif o amrywiaeth o faterion cymhleth dros gyfnod o amser, gydag achosion o risg yn cael eu hasesu a'u rheoli'n briodol. Yn gyson â'n canfyddiadau mewn perthynas â rhai agweddau ar yr asesiadau a'r prosesau cynllunio ac adolygu gofal, nid oedd y dasg o ystyried a chynllunio cynlluniau wrth gefn bob amser yn amlwg o fewn gweithdrefnau diogelu.
- 1.22 Caiff gwasanaethau i ofalwyr yng Ngheredigion eu hwyluso gan Swyddog Datblygu sydd wedi'i gyflogi gan yr awdurdod lleol, a'u cefnogi gan fewnbwn gan sefydliadau trydydd sector. Gwelsom fod llawer o'r rhieni yn gwerthfawrogi'r cymorth a gynigiwyd iddynt yn fawr, ac roedd mwyafrif o'r rheini a oedd wedi rhoi ateb cadarnhaol neu negyddol i'n harolwg wedi nodi eu bod wedi cael cymorth gan yr awdurdod lleol mewn ymateb i geisiadau ar gyfer gwasanaeth seibiant byr.
- 1.23 Mae angen i'r awdurdod lleol sicrhau y rhoddir gwybod i ofalwyr yn rheolaidd am eu hawl i gael asesiad a bod pob aelod o staff yn deall hynny ac yn mynd ati i'w hybu. Dylai Ceredigion hefyd ystyried monitro nifer y gofalwyr sy'n gwrthod cael asesiad a, lle bynnag y bo'n bosibl, nodi'r rhesymau dros hyn er mwyn llywio datblygiadau yn y dyfodol.
- 1.24 Gwelsom fod asesiadau gofalwyr yn cael eu cwblhau'n rheolaidd ar ffurflen Adnodd Asesu a Chymhwysedd Cenedlaethol safonol yn hytrach na ffurflen wedi'i llunio ar gyfer y dasg hon yn benodol. O ganlyniad i hyn, prin iawn oedd asesiadau'n cael eu cwblhau gyda digon o fanylion yn ymwneud â rôl y gofalwyr, anghenion brodyr a chwirydd, a ffactorau hollbwysig eraill. Yn ei dro, roedd hyn yn golygu bod tystiolaeth ar gyfer pennu cymhwysedd a rhesymau dros yr angen i gynnal asesiad yn aml yn anghyflawn neu'n wallus. Roedd hyn yn aml yn arwain at ddiffyg eglurder ynghylch canlyniadau penodol yr oedd y gofalwyr am eu cyflawni, a'r graddau y mae'r gofalwr yn gallu darparu gofal ac yn barod i wneud hynny / parhau i ddarparu gofal.
- 1.25 Er i ni weld rhai enghreifftiau da o sgysiau am yr hyn sy'n bwysig a chanlyniadau personol yn cael eu cofnodi, ar y cyfan, roedd ansawdd asesiadau gofalwyr yn wael, heb fawr ddim ystyriaeth o ganlyniadau posibl sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

- 1.26 Roedd Taliadau Uniongyrchol yn cael eu defnyddio'n helaeth yng Ngheredigion ac er ei bod yn amlwg bod llawer o'r rhieni a'r gofalwyr yn gwerthfawrogi hyn, dywedodd rhai o'r rhieni wrthym am yr anawsterau a'r rhwystredigaethau roeddent yn eu hwynebu wrth recriwtio cynorthwywyr personol i gyflenwi'r oriau cymorth a gymeradwywyd gan eu cytundeb Taliadau Uniongyrchol. Gwnaethom hefyd glywed gan rieni fod cyfyngiadau afresymol weithiau'n cael eu gosod ar hyblygrwydd o ran y ffordd y gellid defnyddio eu taliadau uniongyrchol a oedd eisoes wedi'u cymeradwyo.
- 1.27 Roedd y rhan fwyaf o'r rhieni a arolygwyd hefyd yn teimlo y byddai brodyr a chwiorydd eu plentyn/plant anabl yn cael budd o gymorth ychwanegol oherwydd yr effaith y mae gofalu am blentyn anabl yn ei chael ar y teulu. Roedd nifer bach o achosion lle roedd hyn yn cael ei ystyried yn yr asesiadau a ddogfennwyd neu'r cynlluniau gofal a chymorth a welwyd, er bod llawer o'r gweithwyr cymdeithasol ac ymarferwyr eraill y gwnaethom siarad â nhw yn cydnabod hwn fel maes angen dilys.
- 1.28 Dywedodd rheolwyr yr awdurdod lleol wrthym eu bod yn cydnabod llawer o'r anawsterau hyn, a'u bod yn ymwybodol bod plant anabl a rhieni ag anghenion cymwys a nodwyd weithiau'n aros am gyfnodau hir i'r gwasanaeth ddechrau. Clywsom mewn un achos penodol, sut y cwblhawyd achos busnes, gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth mewnol pwrpasol mewn ymateb i set o amgylchiadau a oedd yn arbennig o gymhleth. Fel arall, gwelsom fawr ddim tystiolaeth o ymarferwyr yn mynd ati'n rheolaidd i gefnogi a thrafod cynlluniau wrth gefn â theuluoedd er mwyn gwella'r anawsterau penodol roeddent yn eu hwynebu.
- 1.29 Roedd ansawdd yr asesiadau gofalwyr a welsom yn amrywio; roedd rhai o'r asesiadau yn dangos tystiolaeth o gasglu gwybodaeth gefndirol berthnasol, hanes teuluol a chyfranogiad asiantaethau eraill. Roedd rhai hefyd yn adlewyrchu ystyriaeth gynhwysfawr o anghenion cyfathrebu ac iaith y plentyn. Fodd bynnag, eithriadau oedd y rhain, ac mewn gormod o achosion, roedd gwybodaeth anghyflawn am y teulu a ffactorau cymunedol wedi arwain at ystyriaeth gyfyngedig o bynciau ehangach a allai fod wedi bod yn ddefnyddiol wrth eu hystyried fel rhan o sgwrs 'yr hyn sy'n bwysig'. Yn ei dro, roedd hyn yn golygu nad oedd elfennau cryfderau a chapasiti o'r asesiad wedi'u datblygu'n iawn yn aml, gan arwain at fwy o gyfleoedd creadigol ac effeithiol ar gyfer datrys problemau a oedd yn dod i'r amlwg yn cael eu colli, neu nad oeddent yn cael eu hystyried yn llawn.
- 1.30 Yn gyson â'n canfyddiadau mewn perthynas ag asesiadau, roedd canlyniadau o gynlluniau gofal a chymorth yn dueddol o gael eu hysgrifennu ar ffurf tasgau neu wasanaethau, yn hytrach nag adlewyrchu canlyniadau sy'n seiliedig ar sgwrsiau am 'yr hyn sy'n bwysig' o safbwynt y plentyn / teuluoedd. Roedd y diffyg dull gweithredu cyson hwn yn seiliedig ar gryfder ac wedi'i lywio gan gyd-gynhyrchu, yn golygu nad oedd asesiadau a chynlluniau gofal a oedd fel arall yn gadarn, yn aml yn cynnwys y gwaith dadansoddi ar sail gwybodaeth sydd ei angen er mwyn nodi canlyniadau personol unigol priodol a'u pennu.
- 1.31 Roedd hyn yn arwain at anawsterau o ran gallu adolygu cynnydd yn erbyn canlyniadau personol penodol yn effeithiol, gan arwain at oedi a/neu ddryswch

ynghylch pa wasanaethau yn union y dylai darparwyr cymorth ac eraill eu darparu. Gwelsom hefyd achosion mewn cofnodion achos lle nad oedd gweithgareddau a oedd yn cael eu cwblhau yn cael eu hadlewyrchu yn y cynllun gofal a chymorth, a oedd yn golygu nad oedd y cynlluniau hyn bob amser yn pennu ystod lawn y gwasanaethau gofal a chymorth a oedd yn cael eu derbyn.

- 1.32 Roedd llawer o'n sgysiau a gafwyd â gweithwyr allweddol ynglŷn â phlant anabl unigol yn adlewyrchu eu gwybodaeth gadarn a dull gweithredu proffesiynol, gan awgrymu bod rhai o'r diffygion hyn a nodwyd yn fwy amlwg mewn perthynas â dogfennaeth a chofnodion ffeiliau achos yn hytrach nag ymarfer o ddydd i ddydd o bosibl.
- 1.33 Gwelsom hefyd fod asesiadau yn cael eu cynnal eto yn ddiangen, ac o bryd i'w gilydd roedd achosion yn parhau i fod yn agored i weithwyr allweddol y TPA lle gellid bod wedi'u lleoli'n briodol mewn proses adolygu, eu trosglwyddo i rywle arall neu eu cau hyd yn oed.
- 1.34 Roedd adolygiad AGC o'r ddogfennaeth a'r trafodaethau â gweithwyr cymdeithasol a'r staff eraill wedi ein harwain i'r casgliad, mewn perthynas â'r asesiadau a'r broses cynllunio gofal ac, i raddau llai, y broses cynllunio llwybrau, nad yw ymarfer yng Ngheredigion yn gwbl gyson ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Tystiolaeth ar lefel strategol:

- 1.35 Mae Ceredigion wedi pennu ei uchelgais ar gyfer plant anabl yn glir. Mae a wnelo'r weledigaeth â gwasanaethau mwy cynhwysol a hygyrch a gaiff eu darparu drwy fodel i bob oedran, lle y caiff plant anabl eu hystyried yn blant yn gyntaf a chânt gymorth di-dor wrth iddynt droi'n oedolion. Ymrwymir i'r weledigaeth hon ar lefel gorfforaethol, caiff ei chyfleu'n glir a'i nod yw llywio'r strwythurau a'r gweithdrefnau gweithdrefnol diwygiedig maes o law. Roedd uchelgais Model Darparu Gwasanaethau Integredig arfaethedig yr awdurdod, sef Porth Ceredigion, yn dangos ei ymrwymiad i wella trefniadau ymyrryd yn gynnar, gwasanaethau statudol a'r cyfnod pontio o fod yn blentyn i fod yn oedolyn ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd.
- 1.36 Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n galed i drawsnewid ei fodel gweithredu ar gyfer gofal cymdeithasol er mwyn bodloni gofynion Deddf 2014 yn llawn a bod yn gyson â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o fewn nodau ehangach ei Strategaeth Gorfforaethol.
- 1.37 Bydd Bwrdd Prosiect Trawsnewid yr awdurdod yn goruchwyllo'r datblygiadau hyn. Mae'r Bwrdd yn rhan o Grŵp Arwain Corfforaethol yr Awdurdod ac mae'n cynnwys Swyddogion Arwain Corfforaethol ar gyfer Porth Cynnar, Porth Ceredigion a Phorth Cymorth Cynnar, ynghyd â'r Prif Weithredwr a dau Gyfarwyddwr Corfforaethol. Mae hyn yn sicrhau bod gan swyddogion uchaf y Cyngor fewnbwn uniongyrchol i gyfeiriad strategol y gwasanaethau o fewn y model darparu gwasanaethau integredig newydd.

- 1.38 Gwnaeth uwch-reolwyr gydnabod eu bod wedi cyrraedd pwynt allweddol ar y daith drawsnewid. Roedd y broses o benodi unigolion i swyddi allweddol o fewn y strwythur newydd hwn yn mynd rhagddi ar adeg yr arolygiad. Roedd hyn yn cynnwys y Rheolwr Corfforaethol ar gyfer y Gwasanaeth Cymorth Estynedig, a bydd y TPA a'r Tîm Cymunedol ar gyfer Anableddau Dysgu (oedolion), sy'n cael eu hintegreiddio mwy a mwy, yn rhan o hyn.
- 1.39 Gwelsom fod y meini prawf cymhwysedd presennol ar gyfer y TPA yn gyfyngedig i'r rheini sydd ag 'anableddau cymedrol i ddwys', a gellid ailystyried trefniadau cymhwysedd presennol yr awdurdodau mewn ffordd ddefnyddiol fel rhan o'r broses drawsnewid ehangach sydd ar waith ar hyn o bryd. Mae hwn yn gyfle allweddol i adolygu'r meini prawf cymhwysedd, yr asesiadau a dogfennaeth eraill ehangach ar hyd y llwybr, gan sicrhau bod ymarfer yn gwbl gyson â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- 1.40 Nododd adolygiad mewnol o'r gwasanaethau plant a gynhaliwyd ym mis Hydref 2019 nifer o agweddau, gan gynnwys Arwyddion Diogelwch a Fframwaith Ymarfer Llesiant, fel blaenoriaethau i'w datblygu ymhellach. Deellir bod yr awdurdod wedi cwblhau dwy flynedd o'r rhaglen Arwyddion Diogelwch pum mlynedd. Cafodd enghreifftiau o ymarfer presennol, gan gynnwys fframwaith ar gyfer rhoi Arwyddion Diogelwch ar waith yn y TPA, eu rhannu ag AGC. Byddem yn cymeradwyo'r casgliad a gafodd ei fynegi yn yr hunanwerthusiad a gwblhawyd gan yr awdurdod lleol cyn yr arolygiad, sef bod angen mwy o waith er mwyn ymgorffori'r ymarfer hwn ym mhob rhan o'r gwasanaeth.
- 1.41 Caiff llawer o elfennau'r her hon eu cydnabod gan yr uwch-reolwyr, a bydd ymrwymiad sylweddol y rheolwyr, eu hegni a'u hadnoddau, y mae eu hangen er mwyn cyflawni'r trawsnewid hwn dros y misoedd a'r blynnyddoedd nesaf, yn allweddol i'r gwaith o weithredu hyn yn llwyddiannus.
- 1.42 Roedd yn bryder bod y gwaith o gadw a chynnal cofrestr o blant anabl ond yn berthnasol i'r rheini sy'n cael gwasanaeth uniongyrchol gan y TPA ar hyn o bryd. Er mwyn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer, ac hefyd er mwyn helpu i lywio'r gwaith cynllunio yn y dyfodol, mae angen i'r awdurdod adolygu'r trefniadau presennol er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd pob plentyn anabl o fewn y cod.
- 1.43 Gallai canfyddiadau'r asesiad o anghenion y boblogaeth ehangach fod yn ddefnyddiol i lywio ystyriaeth bellach o'r dulliau mwyaf effeithiol o ddarparu cymorth yn y dyfodol, gyda chymorth gan y gwaith systematig o nodi a choladu bylchau a meysydd presennol lle nad yw anghenion wedi'u diwallu o dan y trefniadau presennol. Byddai dulliau mwy cynhwysfawr o goladu a dadansoddi adborth gan rieni ac asiantaethau eraill ar y ffordd y gall yr awdurdod wella ei wasanaethau i blant anabl, yn llywio'r ysgogiad hwn i wella ymhellach.
- 1.44 Mae'n amlwg yr ystyrir diogelu fel blaenoriaeth gorfforaethol, ac mae uwch-arweinwyr ac aelodau'r cabinet yn cael adroddiadau diogelu bob chwarter, yn ogystal â diweddariadau rheolaidd ar unrhyw achosion unigol proffil uchel.

2. Pobl – llais a dewis

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau'r canlynol;

- **Dull sy'n seiliedig ar hawliau sy'n sicrhau bod gan blant anabl a'u teuluoedd lais, dewis gwybodus a rheolaeth dros eu bywydau**
- **Mae arweinwyr yn effeithiol o ran sicrhau bod ganddynt ddigon o weithwyr hyderus a medrus i hyrwyddo llesiant plant anabl**

Tystiolaeth ar lefel yr unigolyn:

- 2.1 Gwelsom dystiolaeth wedi'i dogfennu'n dda o gyfathrebu da rhwng gweithwyr allweddol a phlant anabl unigol. Yn yr achosion gorau, eir ati i geisio barn y plant, ac roedd yn glir y gwrandewir arnynt a'u bod yn cael eu parchu. Cafodd y canfyddiadau hyn eu adlewyrchu gan nifer o rieni a ymatebodd i'n harolwg.
- 2.2 Roedd trafodaethau â staff unigol hefyd yn adlewyrchu eu hymrwymiad i wrando yn glir a, lle y bo'n bosibl, gweithredu ar farn pob plentyn anabl yr oeddent yn ei gefnogi. Fodd bynnag, nid oedd 'llais y plentyn', a oedd yn adlewyrchu ei anghenion, ei gryfderau, ei ddi-ddordebau a'i ddyheadau unigol, ac yn nodi'r ffordd fwyaf effeithiol o gyfathrebu ag ef, wedi'i gynnwys yn gyson yn y ddogfennaeth asesu a chynllunio gofal. Mae angen atgyfnerthu'r agwedd hon, ac mae angen dulliau archwilio mwy effeithiol a threfniadau goruchwylio mwy effeithiol gan y rheolwyr er mwyn sicrhau bod yr elfennau o arfer da a welwyd yn cael eu hymgorffori'n fwy cyson.
- 2.3 Gwelsom dystiolaeth glir o'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei wneud, a thrwy ein trafodaethau â'r rhieni a'r ymarferwyr, roedd yn glir bod anghenion ieithyddol y plant anabl, eu rhieni a'u gofalwyr yn cael eu hystyried ac y gweithredir arnynt. Dywedodd unigolion a oedd yn cael cymorth gan y TPA wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r ffaith bod ymarferwyr yn gallu cyfathrebu â nhw yn Gymraeg.
- 2.4 Yn yr un modd, clywsom fod ganddynt fynediad da at wasanaethau eirioli, sydd wedi'u comisiynu gan sefydliad trydydd sector sy'n gweithredu'n lleol a ledled y rhanbarth, gan gynnwys y cynnig rhagweithiol. Defnyddiwyd hyn yn helaeth yn ddiweddar ac roedd ymarferwyr yr awdurdod lleol yn gadarnhaol ynghylch gallu'r gwasanaethau eirioli i fodloni'r ceisiadau hyn i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.
- 2.5 Roedd cymhorthion cyfathrebu darluniadol, hyfforddiant Makaton a thafenni hefyd yn cael eu defnyddio yn y gwasanaeth eirioli, yn ogystal â mynediad at linell ffôn, gwybodaeth yn ymwneud â'r Comisiynydd Plant a phecyn hawliau plant. I'r gwrthwyneb, ni welsom fawr ddim dystiolaeth o ddulliau cyfathrebu ategol ac amgen eraill yn cael eu defnyddio fel rhan o ddulliau ymgysylltu'r gweithwyr allweddol / ymarferwyr â'r plant anabl.

Tystiolaeth ar lefel weithredol:

- 2.6 Dywedodd mwy na thri chwarter o'r staff oedd wedi ymateb i'n harolwg eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan gydweithwyr a rheolwyr i gyflawni eu swydd, a'u bod yn gallu ymdopi â'u llwyth gwaith. Roedd adborth gan y staff y gwnaethom siarad yn uniongyrchol â nhw hefyd yn nodi bod ganddynt fynediad da at hyfforddiant, gydag arwyddion diogelwch / llesiant a chyd-gyfathrebu fel enghreifftiau diweddar.
- 2.7 Roedd gwybodaeth a ddarperir cyn yr arolygiad yn awgrymu bod gweithlu cymharol sefydlog, gyda chyfraddau trosiant cymharol isel, ac ni wnaed fawr ddim defnydd o staff asiantaeth dros y misoedd diwethaf.
- 2.8 Dywedodd rhai o aelodau o'r staff wrthym fod cyfleoedd i fyfrio ar ymarfer proffesiynol gyda'i reolwr tîm yn rhan o'r trefniadau goruchwylio, ond nad oedd cymaint o gyfleoedd i wneud hyn yn y tîm ehangach. Roedd gan y rheolwyr wybodaeth dda am ddatblygiadau penodol mewn llwythi achosion, ac roeddent yn cynnig cymorth effeithiol i unigolion ar eu tîm. Clywsom fod y rheolwyr ar bob lefel yn wybodus, yn gefnogol ac yn hawdd mynd atynt. Roedd yn siom felly gweld diffyg tystiolaeth o oruchwyliaeth gan y rheolwyr a diffyg cadarnhad o benderfyniadau a wnaed yn y ffeiliau achos.
- 2.9 Roeddem yn poeni, ac eithrio adroddiad 'eithriadau' gweinyddol, (wedi'i anelu at sicrhau bod cynnodau allweddol penodol yn y prosesau asesu, adolygu a phrosesau eraill yn cael eu cymeradwyo neu eu datrys o fewn amserlenni cydnabyddedig), nid oedd fawr ddim tystiolaeth o drefniadau archwilio effeithiol, trefniadau goruchwylio gan reolwyr wedi'u strwythuro, na systemau sicrhau ansawdd wedi'u hymgorffori.
- 2.10 Yn ogystal â hyn, gwnaethom nodi fod sesiynau goruchwylio staff ffurfiol yn cael eu cynnal bob mis, ac mae'r staff yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i gael cymorth anffurfiol gan y rheolwyr y tu allan i'r broses hon. Fodd bynnag, gwelsom fod y gwaith o gofnodi sesiynau goruchwylio yn y TPA o ansawdd gwael ar y cyfan, ac nad oedd yn unol â pholisi'r awdurdod lleol ei hun, a oedd yn dyddio yn ôl i 2012 drwy beidio â chydymffurfio ag agenda benodol, amserlenni na defnyddio dogfennaeth goruchwylio y cytunwyd arni.
- 2.11 Dywedodd rhai o'r bobl wrthym hefyd y byddent yn cael budd o wella eu sgiliau cyfathrebu arbenigol, a oedd yn cefnogi ein canfyddiadau mewn perthynas â'r defnydd cyfyngedig o ddulliau cyfathrebu ategol, megis System Cyfathrebu Cyfnewid Lluniau a Makaton / iaith arwyddion drwyddi draw.
- 2.12 Drwy gynnal trafodaethau â'r Swyddogion Adolygu Annibynnol cawsom wybod eu bod bellach yn mabwysiadu dull gweithredu Arwyddion Diogelwch yn rheolaidd pan fyddant yn gwneud gwaith cynllunio ac wrth adolygu cynnydd. Mae'r teuluoedd a'r plant wedi croesawu'r dull gweithredu rhyngweithiol hwn, maent wedi ymateb yn dda i'w ymagwedd agored, gan ganolbwyntio ar y pethau cadarnhaol a'r hyn sy'n gweithio'n dda.

Tystiolaeth ar lefel strategol:

- 2.13 Cafodd dull corfforaethol yr awdurdodau lleol o ymateb i gwynion ei adolygu yn ddiweddar, ac mae yn y broses o gael ei gymeradwyo gan y grŵp arwain. Rhagwelir y caiff ei roi ar waith yn fuan, yn dilyn cymeradwyaeth gan y cabinet.
- 2.14 Ni fu llawer o gwynion diweddar yn ymwneud â'r gwasanaethau ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd. Caiff gwybodaeth am gwynion penodol am wasanaethau cymdeithasol ei rhannu'n rheolaidd â'r cyfarwyddwr, a'i hadlewyrchu yn yr adroddiad blynyddol.
- 2.15 Mae diffyg goruchwyliaeth gan y rheolwyr o lwythi achosion ar hyn o bryd wedi arwain at y ffaith bod rhai achosion yn parhau ar agor lle nad oes angen cymwys, tra cafodd achosion ag anghenion mwy cymhleth mae'n debyg, eu cau. Ni all pobl fod yn sicr bod y gwasanaeth yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'i adnoddau o dan yr amgylchiadau hyn. Ni welsom fawr ddim tystiolaeth o fframwaith sicrhau ansawdd strategol, a dylai'r awdurdod gyflwyno hyn cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau trefniadau goruchwyllo effeithiol o'i holl weithdrefnau craidd.
- 2.16 Roedd yn galonogol nodi bod yr uwch-reolwyr yn cydnabod bod angen atgyfnerthu llais y plentyn, y rhieni a'r gofalwyr yn y gwaith o gynllunio a datblygu'r gwasanaeth.
- 2.17 Mae'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol yn rhagweithiol o ran goruchwyllo amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys eirioli a diogelu. Gwelsom waith craffu manwl ar rianta corfforaethol ac ymrwymiad iddo. Roedd aelodau etholedig wedi mabwysiadu dull gweithredu rhagweithiol ac roeddent yn gofyn i swyddogion am fanylion pellach a gwybodaeth ychwanegol.
- 2.18 Mae cyfarwyddwr presennol y gwasanaethau cymdeithasol wedi'i benodi dros dro, wrth aros i'r model gwasanaethau newydd gael ei roi ar waith dros y deuddeg mis nesaf; ar ôl y cyfnod hwn, y bwriad yw ystyried lle rôl y cyfarwyddwr yn y strwythur diwygiedig.

3. Partneriaethau ac integreiddio

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau'r canlynol;

- **Mae gan yr awdurdod lleol bartneriaethau effeithiol a threfniadau integredig sy'n comisiynu ac yn darparu gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion plant anabl a'u teuluoedd**
- **Mae cynlluniau ar gyfer pobl ifanc anabl sy'n gadael gofal yn seiliedig ar eu cryfderau, yn cynnwys y person ifanc yn llawn ac yn cynyddu eu potensial i fod yn annibynnol**

Tystiolaeth ar lefel yr unigolyn:

- 3.1 Cafwyd adborth cymysg gan rieni mewn ymateb i'n cwestiwn ynghylch pa mor dda y mae gweithwyr proffesiynol o'r gwasanaethau cymdeithasol, addysg, iechyd ac asiantaethau eraill wedi gweithio gyda nhw i gefnogi eu plentyn a chyflawni'r canlyniadau mwyaf cadarnhaol. Nid oedd llawer o wahaniaeth yn nifer y rhieni a oedd yn teimlo nad oedd hyn wedi gweithio'n dda iawn / ddim yn dda iawn o gwbl (23) a nifer y rhieni a oedd yn teimlo bod hyn wedi gweithio'n dda neu'n dda iawn (27).
- 3.2 Yn yr un modd, gwelwyd rhwyg tebyg yn y darlun mewn ymateb i gwestiwn ynghylch pa mor dda y mae'r asiantaethau gwahanol hyn wedi gweithio gyda'i gilydd mewn cyfnod o drawsnewid – er enghraifft o'r gwasanaethau plant i'r gwasanaethau oedolion – o ran pa mor dda yr oedd yr asiantaethau wedi gweithio gyda'i gilydd, ym marn y rhieni, er budd eu plentyn anabl.
- 3.3 Gwelsom fod gan rai pobl ifanc anabl fynediad at ystod dda o ddarpariaethau addysg bellach, cyflogaeth a gweithgareddau cymdeithasol er mwyn dilyn eu diddordebau a bod mor annibynnol â phosibl. Darperir rhai o'r cyfleoedd hyn drwy waith partneriaeth effeithiol rhwng gwasanaethau ieuenctid Cyngor Sir Ceredigion, a Chwaraeon Anabledd Cymru.
- 3.4 Gwnaeth y rhieni hefyd drafod y cydberthnasau cadarnhaol â'r sefydliadau annibynnol a thrydydd sector, ond gwnaethant ychwanegu nad oedd y rhain yn cynnig fawr ddim cyfle ar gyfer seibiannau i ofalwyr na gweithgareddau cymdeithasol ar gyfer eu plant anabl gydag anghenion cymorth mwy cymhleth.
- 3.5 Gwnaethom gyfleu ein pryder i'r uwch-reolwyr sef, ar gyfer rhai plant anabl sydd ag anghenion cymhleth iawn, nid oedd fawr ddim tystiolaeth yn dangos gweithio ar cyd nac unrhyw gyfeiriad at gyfranogiad gan weithwyr iechyd yn eu gofal, lle byddem wedi disgwyl gweld bod y trefniadau hyn ar waith.

Tystiolaeth ar lefel weithredol:

- 3.6 Mae'r TPA yn ddim integredig hirsefydlog, gydag ymarferwyr o gefndiroedd gofal cymdeithasol, addysg ac iechyd yn gweithio gyda'i gilydd o leoliad canolog. Roedd yr ymarferwyr a'r partneriaid y gwnaethom gyfwrdd â nhw yn ystyried bod cydleoeli gwahanol broffesiynau yn ddatblygiad cadarnhaol iawn.

- 3.7 Er i ni gydnabod bod y cefndiroedd proffesiynol cymysg hyn yn fuddiol, dylai'r awdurdod lleol fodloni ei hun fod pob aelod o staff sy'n ymgymryd â thasgau dynodedig penodol yn meddu ar y profiad a'r cymwysterau priodol i wneud hynny, yn unol â phwynt 43 o ddisgwyliadau Rhan 3 o'r Cod Ymarfer.
- 3.8 Gwnaethom arsylwi ar banel anghenion cymhleth, a gwelsom waith aml-asiantaethol effeithiol, gyda ffocws clir ar y ffordd fwyaf effeithiol o ddiwallu anghenion plant anabl y mae angen mwy o fewnbwn a chymorth arnynt. O ystyried ein canfyddiadau mewn perthynas â rhai plant anabl ag anghenion cymhleth a oedd yn aros, mewn rhai achosion am gyfnod sylweddol o amser am wasanaeth aml-asiantaethol, dylai'r awdurdod adolygu ei ddull gweithredu cyffredinol, er mwyn sicrhau y caiff unrhyw oedi ei leihau.
- 3.9 Er nad oes ysgolion arbennig yng Ngheredigion, mae gan lawer o ysgolion cynradd ac uwchradd unedau neu drefniadau eraill i ddarparu cymorth i blant anabl, ac yn ystod ymweliad, gwelsom y ffordd yr oedd y dull gweithredu integredig hwn yn gweithio'n dda iawn i lawer o unigolion. Gwelsom hefyd y ffordd yr oedd cyfarfodydd rheolaidd rhwng y TPA a gweithwyr addysg proffesiynol yn effeithiol wrth rannu gwybodaeth a sicrhau yr ymatebir yn gynnar i faterion a nodwyd.
- 3.10 Mae lleoliadau addysgol mwy arbenigol yn dueddol o fod y tu allan i'r sir, a dywedodd rhai o'r rhieni wrthym am yr anawsterau roeddent yn eu hwynebu wrth geisio dod o hyd i leoliadau addas yn agos i'r cartref, gan arwain at nifer bach o'r rhieni yn penderfynu mai addysgu eu plentyn yn y cartref oedd yr opsiwn gorau.
- 3.11 Mae'r awdurdod wedi gweithio'n galed i leihau nifer y plant a'r bobl ifanc anabl sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r sir, ac mae menter Camu Ymlaen ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed, y bwriedir ei chwblhau ym mis Medi 2020, yn enghraifft o'r gwasanaethau cymdeithasol, tai ac addysg yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu ar gyfer angen a nodwyd yn glir.
- 3.12 Mae'n amlwg bod plant anabl a'u teuluoedd yn cael budd o gydberthnasau cadarnhaol ag ysgolion, ac mae'r ffaith bod staff addysg yn bresennol yn eu hadolygiadau blynyddol ar gyfer cynllunio ar gyfer y cyfnod pontio yn arwain at baratoadau da sy'n seiliedig ar wybodaeth ar gyfer y cyfnod pwysig hwn. Roedd rhai plant anabl yn dilyn cwricwlwm amgen yn eu hysgol uwchradd prif ffrwd, gyda ffocws clir ar ddatblygu eu sgiliau bywyd a'u hannibyniaeth.
- 3.13 Gwnaethom ddysgu am y gwaith a wnaed ar y cyd rhwng y gwasanaethau plant ac adran dai yr awdurdod lleol drwy eu cyfraniad at gyfarfodydd tîm aml-ddisgyblaethol ar gyfer plant anabl sy'n gadael gofal. Er nad oes fawr ddim llety arbenigol ar hyn o bryd, mae cynlluniau ar waith i brynu eiddo yn ardal Aberystwyth lle y gellir asesu plant anabl, yn ogystal â darparu'r cyfleusterau seibiant ychwanegol sydd eu hangen yn fawr.
- 3.14 Mae angen polisiâu a gweithdrefnau clir mewn perthynas â rhoi taliadau uniongyrchol ar waith yn effeithiol. Bydd angen i'r rheolwyr oruchwylio'r rhain yn effeithiol a'u monitro er mwyn sicrhau y cânt eu rhoi ar waith yn gyson.

Tystiolaeth ar lefel strategol:

- 3.15 Ni welsom fawr ddim tystiolaeth o drefniadau comisiynu ar y cyd a / neu ranbarthol. Roedd uwch-reolwyr yng Ngheredigion yn cydnabod nad oedd ganddynt strategaeth gomisiynu benodol ar gyfer plant anabl yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol a oedd yn adlewyrchu ei weledigaeth ar gyfer darparu'r gwasanaethau yn y dyfodol. Mae angen i'r awdurdod wneud mwy i werthuso'r ddarpariaeth gwasanaeth ar hyn o bryd mewn ffordd systematig, mapio bylchau ac anghenion nad ydynt wedi'u bodloni a defnyddio gwybodaeth ac adborth gan blant anabl a'u teuluoedd, darparwyr ac asiantaethau eraill i lywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau mwy effeithiol.
- 3.16 O dan rolau sydd wedi'u hailalinio'n ddiweddar, cyfarwyddwr Porth Ceredigion sydd bellach yn gyfrifol am dai fel rhan o'r gwasanaeth i bob oedran, gan gynnig cyfleoedd arloesol er mwyn cysoni'r gwaith o ddarparu gwasanaethau'n well.
- 3.17 Roedd yn glir o'n canfyddiadau mewn perthynas â rhai cynlluniau gofal unigol ar gyfer plant anabl sydd ag anghenion mwy cymhleth, a chyfweiliadau ag uwch-reolwyr yn y ddau sefydliad nad oedd gan Gyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ddealltwriaeth gyffredin o'u cyfrifoldebau ariannol ar gyfer plant sydd ag anghenion cymhleth. Felly, mae angen dod i gytundeb ar ddyfodol trefniadau ariannu ar y cyd. Cafodd canllawiau newydd sy'n ymwneud â'r mater hwn eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020, gyda'r nod o hybu'r gwaith o ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Mae angen sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r canllawiau newydd hyn, a'u bod yn cael eu hystyried gan reolwyr Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wrth wneud penderfyniadau ar y cyd ynghylch ariannu gwasanaethau ar gyfer plant anabl unigol sydd ag anghenion cymhleth.
- 3.18 CYSUR – Bwrdd Diogelu rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru – sy'n goruchwyllo'r trefniadau llywodraethu yng Ngheredigion. Mae'r Bwrdd wedi bod yn hybu'r Fframwaith Arwyddion Diogelwch yn rhagweithiol yn ddiweddar.
- 3.19 Mae'r awdurdod yn cydnabod bod plant anabl sydd wedi bod mewn gofal yn cael eu lleoli yn y lleoliadau gorau a mwyaf priodol, mor agos i'r cartref â phosibl. Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym fod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi cydnabod yr angen i roi mwy o bwyslais ar blant yn ddiweddar, ac wedi penderfynu pennu ffrwd waith benodol ar gyfer plant. Y nod yw atgyfnerthu trefniadau gwaith rhanbarthol a gwella'r gwasanaethau a gynigir er mwyn diwallu anghenion plant sydd ag anghenion cymhleth yn y dyfodol.

4. Atal ac ymyrraeth gynnar

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau'r canlynol;

- **Dull strategol a gynlluniwyd i ddarparu cymorth cynnar a gwasanaethau ataliol amserol a chymesur**
- **Caiff plant anabl gymorth mewn cymunedau gwydn i gyflawni eu llawn botensial; i fyw, dysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas**

Tystiolaeth ar lefel yr unigolyn:

- 4.1 Wrth edrych ar y ffeiliau, gwelom fod y rheini yn cael ystod gynhwysfawr o wybodaeth am y gwasanaethau a all fod o ddiddordeb neu o gymorth iddynt pan fyddant yn cysylltu â'r awdurdod lleol am y tro cyntaf. Mewn un achos, roedd hyn yn cynnwys y Porth Gofal yn darparu gwybodaeth am ganolfannau teulu lleol, gwasanaethau iechyd sylfaenol, tîm asesu awtistiaeth (SCATS), y tîm o amgylch y teulu, gweithiwr ymyrryd yn gynnar, meithrinfeydd lleol, cymorth addysgol – seicolegydd addysgol / tîm Anghenion Addysgol Arbennig a thaliadau uniongyrchol.
- 4.2 Dywedodd rhieni unigol wrthym am yr ymyriadau llwyddiannus a gyflawnwyd gan weithwyr ymyrraeth gynnar yn y TPA gyda'u plant anabl. Roedd y rhain yn cynnwys cymorth gyda defnyddio'r toiled, arferion amser gwely a rheoli ymddygiad. Roedd y rhieni a'r staff hefyd yn gadarnhaol ynghylch y tîm cymorth cynnar yn y tîm o amgylch y teulu, sy'n cydlynu cymorth i deuluoedd gan amrywiaeth o asiantaethau, gan ganolbwyntio ar nodau a dymuniadau'r teulu a nodwyd, a defnyddio eu cryfderau i ddatblygu sgiliau a dulliau gweithredu newydd.
- 4.3 Dywedwyd wrthym hefyd am y gwaith a wnaed gan weithwyr cymorth Tîm Teulu, sy'n gweithio gyda rhieni a phobl ifanc yn uniongyrchol. Gall y gwaith gyda rhieni fod yn unigol, gan eu helpu gyda strategaethau er mwyn adeiladu ar eu sgiliau rhianta a'u galluogi i adfer cydbwysedd yn eu teulu neu, fel arall, gellir cyflawni eu gwaith fel rhan o'r grŵp.
- 4.4 O'r gyfran fach o'r rhieni a ymatebodd i'n harolwg sydd â phlant o dan 5 oed, dim ond ychydig ohonynt oedd yn teimlo bod digon o gyfleusterau gofal plant – meithrinfeydd, grwpiau chwarae a gwarchodwyr plant – ar gael yn eu hardal leol ar gyfer eu plentyn anabl.

Tystiolaeth ar lefel weithredol

- 4.5 Ar hyn o bryd, mae 4 cysylltwr cymunedol yn gweithio ledled Cyngor Sir Ceredigion, a chlywsom eu bod wedi sefydlu cysylltiadau da â grwpiau cymunedol mewn trefi ac ardaloedd mwy poblog. Mae wedi cymryd llawer mwy o amser i sefydlu a chynnal cysylltiadau â chyfleusterau sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd mwy gwledig a phentrefi llai. Cydnabyddir bod y drafnidiaeth i'r ardaloedd hyn, ac oddi yno – gyda diffyg trafnidiaeth â chymorth yn benodol – yn

fater sy'n mynd rhagddo, ac sy'n cael effaith sylweddol ar fynediad at wasanaethau ar gyfer rhai plant anabl a'u teuluoedd.

- 4.6 Roedd llawer o'r rheini yn gwerthfawrogi cyfleusterau seibiannau byr ar benwythnosau a diwrnodau gweithgareddau i ffwrdd â thema DASH (Anabledd a Hunangymorth). Fodd bynnag, yn debyg i gyfleusterau seibiannau byr eraill, roedd llawer ohonynt yn ystyried bod mynediad at y gwasanaethau hyn yn rhy gyfyngedig.
- 4.7 Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gweithio i ail-lunio ac ailgynllunio ei wasanaethau gweithredol er mwyn canolbwyntio'n fwy ar ei fentrau ymyrryd yn gynnar ac atal, yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod nad yw'n gwneud y defnydd gorau posibl o dechnoleg gynorthwyol er mwyn cefnogi gofalwyr sy'n rhieni neu i hybu annibyniaeth ar gyfer oedolion ifanc sy'n anabl. Mae hwn yn faes y mae angen i'r awdurdod ei ddatblygu er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer plant anabl, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Tystiolaeth ar lefel strategol:

- 4.8 Mae Ceredigion yn canolbwyntio ar atgyfnerthu trefniadau atal ac ymyrryd yn gynnar, gyda'r Prif Weithredwr yn cydnabod yn glir bod angen gwneud pethau'n wahanol. Roedd llawer o elfennau o'r model darparu ymyrraeth gynnar a roddwyd ar waith yn ddiweddar, megis canolfannau llesiant, yn y broses o gael eu datblygu o hyd. Mae'n hanfodol bod y Cyngor yn datblygu ei weledigaeth ar gyfer gwasanaethau plant anabl, fel y gall plant a phobl ifanc gael budd o'r dulliau a nodwyd i wella canlyniadau.

Dull

Dewiswyd ffeiliau achos i'w holrhain a'u hadolygu o sampl o achosion. Gwnaethom edrych ar gyfanswm o 45 o ffeiliau achos, a gwnaed gwaith dilynol ar 15 o'r rhain gyda chyfweliadau â gweithwyr cymdeithasol a'r plant a/neu eu teuluoedd. Gwnaethom siarad â rhieni plant anabl a dosbarthu arolwg i gasglu eu barn. Ymatebodd 55 ohonynt i'r arolwg hwn. Gwnaethom siarad â thua deg plentyn a/neu eu rhieni yn uniongyrchol.

Gwnaethom gyfweld ag amrywiaeth o ymarferwyr gofal cymdeithasol a'u rheolwyr, aelodau etholedig ac uwch-swyddogion. Gwnaethom ddosbarthu arolwg i staff gofal cymdeithasol sy'n gweithio gyda phlant anabl. Ymatebodd 48 ohonynt i'r arolwg hwn.

Gwnaethom edrych ar 27 cofnod o oruchwyliaeth gan reolwr llinell gan naw ymarferydd a rheolwr. Edrychwyd ar sampl o dair cwyn a gwybodaeth gysylltiedig. Adolygwyd gwybodaeth am berfformiad ac amrywiaeth o ddogfennau perthnasol yr awdurdod lleol. Gwnaethom arsylwi ar gyfarfodydd panel amlasiantaethol perthnasol.

Gwnaethom gyfweld ag amrywiaeth o staff gweithredol a strategol o'r bwrdd iechyd lleol a sefydliadau darparwyr perthnasol.

Y Gymraeg

Roedd tri arolygydd a oedd yn siarad Cymraeg ar gael, gan alluogi AGC i ddarparu'r cynnig rhagweithiol o ran cynnal rhannau o'r broses arolygu yn Gymraeg.

Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser ac a gyfrannodd at yr arolygiad hwn: plant, rhieni, staff, rheolwyr, aelodau, sefydliadau partner a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill, gan gynnwys cydweithwyr o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.